**EITEM AR YR AGENDA: 11**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**20 Mawrth 2017**

**ALLDRO AMCANOL 2016-2017**

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

## Diben yr Adroddiad

1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu alldro amcanol wedi'i amcangyfrif am flwyddyn ariannol 2016-2017 i'r Aelodau.

## Cyflwyniad

2 Mae gwariant o'i gymharu â'r gyllideb yn cael ei fonitro'n agos gan staff y Gwasanaeth Tân ac Achub, a thynnir sylw at unrhyw amrywiadau neu amrywiadau disgwyliedig cyn gynted ag y bônt yn digwydd, a hynny er mwyn gallu gosod mesurau yn eu lle i sicrhau nad oes unrhyw risg ariannol i'r Awdurdod. Yn ôl yr arwyddion cyfredol, ni fydd unrhyw danwariant a bydd angen £454,327 o gronfeydd wrth gefn i gefnogi'r gyllideb ar gyfer 2016/17. Yn ystod y broses o osod y gyllideb, amcangyfrifwyd y byddai angen £760,417 o gronfeydd wrth gefn i osod cyllideb fantoledig. Mae'r dadansoddiad manwl yn Atodiad A, a dangosir unrhyw danwariannau gydag arwydd minws (-).

3 Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r gwariant gwirioneddol hyd at ddiwedd mis Chwefror, ac yn amcangyfrif y gwariant am fis olaf y flwyddyn.

## Amrywiadau i'r Gyllideb

### Costau Gweithwyr

4 Mae dros 70% o wariant y gwasanaeth tân ac achub yn ymwneud â chyflogau, ac yn ôl yr arwyddion bydd gorwariant net ar gyflogau eleni.

5 Ar ôl adolygu'r ddarpariaeth gofal tân, cyflogwyd diffoddwyr tân amser cyflawn (WDS) gwledig ar gontractau amser cyflawn gwledig, ynghyd â nifer o brentisiaid diffoddwyr tân. Mae'r recriwtiaid newydd yn darparu gofal ar orsafoedd y system RDS yn ogystal ag ar orsafoedd amser cyflawn. Yn ystod y broses o osod y gyllideb, amcangyfrifwyd faint o oriau o ofal y disgwylid iddynt gael eu darparu gan y recriwtiaid newydd ond oherwydd newidiadau o ran cylchrestru, maent yn darparu mwy o ofal na'r hyn a ddisgwylid yn wreiddiol. Mae'r gorwariant ar gyllideb y diffoddwyr tân wedi digwydd oherwydd y newidiadau hyn ond caiff ei wrthbwyso gan yr arbedion ar y gyllideb ar gyfer diffoddwyr tân y system RDS. Ar gyfer y blynyddoedd i ddod, caiff y cyllidebau eu hailgysoni i adlewyrchu'r newidiadau o ran darparu gofal tân.

6 Mae'r tanwariant yng nghyllideb y prif swyddogion yn ymwneud â'r swydd wag ar gyfer prif swyddog tân cynorthwyol.

7 Mae'r gorwariant ar staff cefnogol a staff dros dro yn ymwneud yn bennaf â staff sydd â sgiliau arbenigol a gyflogwyd ar gontractau cyfnod penodol i gyflawni nifer o brosiectau trawffurfiadol allweddol megis cael y system gorchymyn a rheoli newydd a'r system gwybodaeth reoli newydd.

8 Mae'r cynnydd yn nifer y recriwtiaid newydd wedi golygu y bu rhaid darparu mwy o hyfforddiant nag a amcangyfrifwyd yn wreiddiol pan osodwyd y gyllideb. Amcangyfrifir y bydd £50k o orwariant yn y gyllideb hyfforddiant.

9 Mae'r gorwariant ar y gyllideb pensiynau wedi digwydd oherwydd y cyfraniad i gronfa bensiwn y diffoddwyr tân ar gyfer ymddeoliadau ar sail afiechyd. Os oes diffyg yn y gyllideb yn gyffredinol, gellir cwrdd â hwnnw o'r gronfa a glustnodwyd i ymorol am y taliadau ychwanegol hyn.

10 Yn dilyn dyfodiad systemau newydd, mae nifer o brosesau wedi cael eu symleiddio gan arwain at fod angen llai o staff. Mae costau'r taliadau diswyddo gwirfoddol wedi cael eu cynnwys yn yr alldro amcanol, ac nid oeddent wedi cael eu cynnwys yn y gyllideb wreiddiol. Bydd y costau diswyddo yn cael eu gwrthbwyso gan arbedion yn y gyllideb yn y dyfodol.

**Safleoedd**

11 Yn gyffredinol, bydd yna orwariant bach o £4k ar y gyllideb safleoedd. Mae amrywiadau sylweddol ar y gyllideb ar gyfer atgyweirio a chynnal a chadw a'r gyllideb ar gyfer ynni. Ar hyn o bryd, amcangyfrifir bod gorwariant ar y gyllideb ar gyfer atgyweirio a chynnal a chadw, mae hyn yn rhannol oherwydd bod swm wrth gefn wedi'i ychwanegu i ymorol am orsaf dân newydd Wrecsam a nifer o brosiectau ychwanegol a ddygwyd ymlaen i sicrhau bod gwaith cynnal a chadw hanfodol yn cael ei wneud i gydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch. Bydd y costau ychwanegol yn cael eu gwrthbwyso'n rhannol gan arbedion ar gostau ynni oherwydd amcangyfrifir y bydd yna ostyngiad sylweddol yn y costau trydan, hyd at 30% ar rai safleoedd, a hynny oherwydd bod llai yn cael ei ddefnyddio a bod yr adran gyfleusterau wedi negodi contractau ynni newydd.

**Cludiant**

12 Yn gyffredinol, amcangyfrifir y bydd £174k o danwariant yn y gyllideb cludiant. Mae'r costau ychwanegol yn y gyllideb peiriannau a chyfarpar oherwydd bod adran y Fflyd yn paratoi i ddarparu gwasanaeth cynnal a chadw yng ngorsaf newydd Wrecsam ar y cyd ag YGAC a Heddlu Gogledd Cymru. Yn ôl yr arwyddion presennol, bydd costau tanwydd a threuliau teithio yn is na'r gyllideb wreiddiol oherwydd gostyngiad ym mhrisiau tanwydd a'r lefelau gweithgarwch presennol.

**Cyflenwadau**

13 Mae'r gorwariant ar gyfarpar gweithredol wedi digwydd oherwydd bod angen trwsio cynwysyddion a ddefnyddir ar gyfer hyfforddi yn Nolgellau ac Airbus a bod angen cynnal a chadw cyfarpar ffitrwydd er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch.

14 Amcangyfrifir ar hyn o bryd y bydd gorwariant ar gostau cyfrifiaduron. Mae'r rhan fwyaf o'r gorwariant oherwydd y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r contract cenedlaethol newydd ar gyfer system gysylltiadau radio. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r prosiect a'r costau sy'n gysylltiedig. Y llynedd, neilltuwyd £300k i ymorol am rai o'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â throsglwyddo i'r system newydd, ond ar yr adeg hon o'r flwyddyn caiff y costau ychwanegol eu gwrthbwyso gan arbedion ar y gyllideb gysylltiadau oherwydd nifer o ffactorau, sy'n cynnwys gostyngiad yng nghost rhentu llinellau a chostau galwadau.

15 Bydd gwariant ar brosiectau arbennig, megis 'Cyd-Grŵp y Gwasanaethau Brys' (JESG)/y Pwyllgor Materion Cenedlaethol, yn llai na'r gyllideb oherwydd bod y lefelau gweithgarwch yn is na'r flwyddyn flaenorol. Caiff y tanwariant ei wrthbwyso gan y gostyngiad yn yr incwm a ddaw i ariannu'r prosiectau hyn.

16 Mae'r cynllun treialu cyd-ymateb yn destun adroddiad arall ar yr agenda. Ni osodwyd unrhyw gyllideb ar gyfer y cynllun treialu oherwydd disgwylid y byddai modd talu'r costau ychwanegol o'r gyllideb yn gyffredinol. Fodd bynnag, bydd £6k o'r gorwariant yn cael ei dalu gan incwm ychwanegol a ddaw drwy ailgodi tâl am weithgareddau. Gwelir hyn fel cynnydd ar y gyllideb incwm amrywiol.

17 Bydd gorwariant ar y gyllideb gwisgoedd oherwydd bod angen cyfarpar amddiffyn personol (PPE) ychwanegol ar gyfer recriwtiaid newydd a gweithwyr dwy rôl.

18 Bydd yna orwariant ar y gyllideb ffioedd proffesiynol oherwydd bod cynnydd yn y ffioedd actiwaraidd a chynnydd yn y ffioedd broceru am drefnu benthyciadau byrdymor.

**Asiantaeth**

19 Mae'r costau ychwanegol ar llinell y gyllideb iechyd galwedigaethol oherwydd bod angen darparu sgrinio meddygol ychwanegol i'r diffoddwyr tân. Dyma ofyniad newydd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i brofi am arwyddion o asbestosis.

**Gwasanaethau Cefnogol**

20 Mae'r cytundeb lefel gwasanaeth gyda Heddlu Gogledd Cymru ar gyfer rheoli cyfleusterau wedi cael ei ail-negodi am gost is am yr un lefel o wasanaeth. Mae hyn wedi cyfrannu £55k o arbedion i sefyllfa'r alldro.

21 Bydd tanwariant ar y gyllideb ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol gweithwyr oherwydd ni fu angen defnyddio eu gwasanaethau fel y bu angen yn y blynyddoedd blaenorol.

## Cyllido Cyfalaf

22 Amcangyfrifir bod y costau dyledion a gysylltir â'r rhaglen gyfalaf yn is na'r gyllideb wreiddiol oherwydd bod cyfraddau llog isel yn gyffredin a bod benthyciadau byrdymor yn cael eu defnyddio i ariannu'r rhaglen gyfalaf. Sicrhawyd costau llogau is hefyd drwy 'fenthyca'n fewnol', sef defnyddio cronfeydd wrth gefn a balansau i ariannu'r rhaglen yn hytrach na threfnu benthyciadau newydd.

## Incwm

23 Yn gyffredinol, amcangyfrifir y bydd yr incwm fymryn yn is na'r gyllideb wreiddiol. Bu gostyngiad i'w groesawu yn nifer y galwadau am wasanaeth arbennig ond arweiniodd hyn at gael llai o incwm na'r disgwyl pan osodwyd y gyllideb. Mae'r incwm o ffioedd cyfalaf wedi gostwng yn unol â'r gwariant a fu ar y rhaglen gyfalaf ac ail-gysoni'r gyllideb gyfalaf. Mae'r incwm ychwanegol o werthiant wedi digwydd oherwydd yr incwm a gafwyd drwy gael gwared ar gerbydau a chyfarpar wrth brynu rhai newydd neu pan nad oes mo'u hangen mwyach.

## Incwm Grantiau

24 Dyma'r grantiau a ddyrannwyd hyd yma yn y flwyddyn ariannol hon:-

Firelink - £415,600 (wedi'i gynnwys yn ffigyrau'r alldro)
Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol - £153,705
Ymyriadau - £196,000
Refeniw Cymru Gydnerth - £221,636
Cyfalaf Cymru Gydnerth - £118,665
Y Ffenics - £170,000
Fforwm Lleol Cymru Gydnerth - £53,142
Tîm Cymorth Cymunedol (CAT) - £72,000

25 Bydd unrhyw wariant ychwanegol a delir gan yr Awdurdod er mwyn bodloni telerau'r grant yn cael ei dalu gan yr incwm grant. Ni ddangosir y gwariant hwn yn natganiad alldro'r gyllideb.

## Argymhelliad

26 Bod yr Aelodau'n nodi sefyllfa ariannol yr Awdurdod.